

## Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

3ydd Ionawr, 2017

**Presennol:** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Heledd Jones (is gadeirydd), Huw Antur, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones, Alwyn E Jones, Rhodri Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts, Ian Trow, Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

1669 Dymunodd y Cadeirydd flwyddyn newydd dda i bawb a derbyniwyd ymddiheuriadau Karl Jones ac Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd)

1670 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1671 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

1672 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/12/16.

1673 **Materion y Clerc:**

1661v Derbyniwyd ymateb y Comisiynydd Iaith parthed pryderon y Cyngor am lysenw annerbyniol yn cael ei ddefnyddio ar wefan i seiclwyr yn lle "Bwlch y Groes".

1663 Derbyniwyd ymateb a oedd yn bodloni'r aelodau gan Un Llais Cymru am hyfforddiant diweddar.

1666 Derbyniwyd ymateb Cartrefi Cymunedol Gwynedd i ymholiad Alan Jones Evans parthed parcio ym Maesypanyd a diolchwyd i'r Cynghorydd am ei ymdrechion yn y mater.

1668 Derbyniwyd ymateb Rheilffordd Llyn Tegid i bryderon y Cyngor ar gyhoeddiad uniaith Saesneg, a gwybodaeth fod cymorth yn cael ei estyn i sicrhau fod cyhoeddiadau'n ddwyieithog yn y dyfodol.

1674 **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig ysgrifenedig.

1675 **Materion Eiddo'r Cyngor:** diolchwyd i bawb a sicrhodd fod coeden a golau Nadolig arni wedi ei gosod wrth ddod mewn i'r pentref.

1676 **Materion ariannol:**

- i. Derbyniwyd llythyr BDO yn dweud bod yr anfoneb ar y ffordd.
- ii. Cadarnhawyd y gwahoddiad a anfonwyd ym mis Mai i John Roberts weithredu fel Archwilydd Mewnol.
- iii. Ystyriwyd Lwfans Cynghorydd o dan Adran 142 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru 2011) ac arwyddodd yr aelodau nad oeddent yn dymuno derbyn y lwfans am wasanaethu fel aelodau o Gyngor Cymuned Llanuwchllyn (oni bai costau teithio fel cynrychiolwyr y Cyngor).
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth am Wariant arian Adran 137.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

- v. Cytunwyd i'r Clerc arwyddo ac anfon ffurflen y Praesept ar gyfer 2017-18.
- vi. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis.
- vii. Derbyniwyd gwybodaeth monitro'r gwariant yn erbyn y Gyllideb a diolchwyd i'r Swyddog Ariannol am ei baratoi.

**1677 Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd Adroddiad y Cynrychiolwyr.

**1678 Gohebiaeth:**

1. Parc Cenedlaethol Eryri: derbyniwyd gwybodaeth am gais cynllunio (eisoes wedi ei gymeradwyo) i osod polyn telegyfathrebu yn ardal Buarth Meini.
2. Gwynedd: Derbyniwyd llyfryn gwybodaeth am Benllyn a gyhoeddwyd gan fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Cytunodd Dewi Jones i gael mwy o fanylion er mwyn i'r Clerc gysylltu ymhellach ar ran y Cyngor ac ar ran Partneriaeth Penllyn.
3. Eraill: Derbyniwyd llythyr gan Y Cylch Meithrin yn cydnabod pryderon yng nghylch diogelwch wrth y Neuadd Bentref ac yn amlinellu camau pellach i'w cymryd i leihau risg o ddamwain.
4. Un Llais Cymru: Cytunodd y Swyddog Ariannol a Huw Antur i fynychu hyfforddiant ar gyllid ym Mhenrhyndeudraeth ar 2/2/17.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7/2/17

Amser gorffen: 8.50pm